AWGRYMIADAU AR GYFER GWERSI CA3

8. Enough [Digon]

Anna Mantzaris, 2018, Sweden/Y DU

Deialog a Dadlau:

Cysylltu syniadau â'i gilydd i'w cyfosod

Dangoswch sut i wrando ar bwyntiau gwahanol ac yna eu cyfosod. Trafodwch y gwahaniaeth rhwng cyfosod a chrynhoi. Defnyddiwch waith grŵp er mwyn i'r myfyrwyr ymarfer y sgìl hwn

Dealltwriaeth Ddiwylliannol

Cyfrifoldeb Cymdeithasol: Dinasyddiaeth

Trafod canlyniadau ymddygiad gwrthgymdeithasol

Cwestiynau Trafod

Cyn gwylio'r ffilm, trafodwch ystyr 'ymddygiad gwrthgymdeithasol'.

Ynghylch y ffilm:

Y myfyrwyr i weithio mewn grwpiau ac adrodd yn ôl:

- *A yw rhai o'r ymddygiadau yn y ffilm yn waeth nag eraill? Rhestrwch yr enghreifftiau canlynol o'r ffilm yn ôl eu difrifoldeb* (lluniau isod):
    - *Colli'r bws a gorwedd ar y llawr*
    - *Rhoi slap i'r person swnllyd ar y bws*
    - *Gwthio pobl i lawr y grisiau*
    - *Taflu'r cyfrifiadur allan o'r ffenestr*

Y tu hwnt i'r ffilm:

- *Pam y mae pobl yn 'colli rheolaeth'? A allwch uniaethu â hyn?*
- *Beth sy'n digwydd os caiff 'normau cymdeithasol' eu hanwybyddu?*
- *A yw dinasyddiaeth yn cynnwys cyfrifoldebau? Ym mha ffordd?*

Syniadau ar gyfer Mynegiant Diwylliannol

Crëwch fframiau fferru o ymddygiad cymdeithasol/gwrthgymdeithasol.